

## **PWYLLGOR TRWYDDEDU**

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 5 Rhagfyr 2018 am 9.30 am.

### **YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Hugh Irving (Cadeirydd), Alan James (Is-Gadeirydd), Brian Jones, Richard Mainon, Melvyn Mile, Arwel Roberts, Tony Thomas, Rhys Thomas a Huw Williams

### **HEFYD YN BRESENNOL**

Cyfreithiwr (AL), Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd (IM), Swyddog Trwyddedu (NJ), Swyddogion Gorfodi (HB a KB) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

### **MATERION O HYSBYSIAD**

Y Cadeirydd -

- (i) cyflwynwyd a chroesawyd y Swyddog Gorfodi Trwyddedu (KB) i'r cyfarfod;
- (ii) adroddodd ar ymweliad rheoleiddio ar y cyd i safleoedd trwyddedig yn y Rhyl, Prestatyn a Gallt Melyd a gyflawnwyd gyda'r Cynghorydd Tony Thomas (Aelod Arweiniol dros Drwyddedu), Swyddogion Trwyddedu a Heddlu Gogledd Cymru gyda'r golwg o hyrwyddo amcanion trwyddedu a bu ymgysylltiad cadarnhaol rhwng yr holl bartïon. Un mater i'w nodi oedd y dystiolaeth o ddefnydd o gyffuriau mewn rhai safleoedd trwyddedig, a oedd yn cael ei ddatrys trwy ddull amlasiantaeth ac ymgysylltiad gyda deiliaid trwydded, a
- (iii) chadarnhaodd y bydd trefn y rhaglen yn amrywio er mwyn bodloni'r unigolion sy'n mynychu ar gyfer eitemau penodol.

#### **1 YMDDIHEURIADAU**

Y Cynghorwyr Joan Butterfield a Barry Mellor

#### **2 DATGAN CYSYLLTIADAU**

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

#### **3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

#### **4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2018.

**PENDERFYNWYD** derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2018 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.

## **5 DIWEDDARIAD AR BOLISI EUOGFARNAU CERBYDAU HACNI A HURIO PREIFAT**

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad (dosbarthwyd yn flaenorol) i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ar adolygiad y Cyngor o Bolisi Collfarn Gyrwyr Cerbyd Hacni a Cherbydau Hurio Preifat a derbyn cymeradwyaeth i fabwysiadu dogfen ganllawiau Sefydliad Trwyddedu (IOL) ar ddyfarnu addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwydded ym masnachau cerbyd Hacni a cherbydau hurio preifat (wedi'i atodi i'r adroddiad).

Derbyniodd aelodau'r wybodaeth ddiweddaraf ar Ganllawiau IOL yn eu cyfarfod diwethaf a dim ond Sir Fôn oedd wedi mynegi diddordeb mewn mabwysiadu'r ddogfen. Ers hynny, cytunodd Panel Technegol Trwyddedu Cymru Gyfan mewn egwyddor, y dylai bob awdurdod lleol edrych i fabwysiadu'r polisi collfarn IOL er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y rhanbarth a dynododd y mwyafrif o awdurdodau trwyddedu yng Ngogledd Cymru y byddent yn edrych i fabwysiadu'r Canllawiau. Pe byddai'r aelodau'n penderfynu mabwysiadu'r Canllawiau, cynigodd swyddogion strategaeth ymgysylltu i godi ymwybyddiaeth a thrafod goblygiadau'r ddogfen ar ddeiliaid trwydded presennol.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, ymatebodd swyddogion i gwestiynau'r aelodau fel a ganlyn -

- cafodd y Canllawiau eu datblygu gyda chyfraniadau gan Gymdeithas Llywodraeth Leol, Cyfreithwyr Llywodraeth Leol a Chymdeithas Genedlaethol Swyddogion Gorfodi Trwyddedu ac yn destun i ymgynghoriad cyhoeddus eang yn cynnwys Cynghorwyr a Masnachwyr Cerbydau Hurio Preifat, academyddion, y Gwasanaethau Prawf a'r Heddlu – roedd rhestr lawn o'r cyfranwyr wedi'i nodi o fewn y ddogfen.
- roedd yr IOL wedi cyflawni arolwg i fesur y sefyllfa bresennol o ran mabwysiadu'r polisi yn genedlaethol a datgelodd y ffigyrau diweddaraf bod 99% o'r 160 o ymatebwyr wedi cydnabod manteision polisi cenedlaethol safonedig; roedd y mwyafrif o'r rhai a oedd yn edrych i adolygu eu polisi wedi dynodi y byddent yn gwneud hynny gyda'r golwg o fabwysiadu Canllawiau IOL, a phan adolygir eraill eu polisi byddent yn edrych i fabwysiadu Canllawiau IOL er mwyn sicrhau unffurfiaeth. O ran Rhanbarth Gogledd Cymru mynegodd holl awdurdodau lleol ddymuniad i fabwysiadu'r Canllawiau ac eithrio Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a ddynododd na fyddent yn mabwysiadu'r polisi ond yn rhoi sylw iddo.
- nid oedd strategaeth ymgysylltu ar gyfer deiliaid trwydded presennol wedi ei gwblhau eto ond byddai'n cynnwys sesiynau ar draws y sir ar amseroedd amrywiol ac yn debygol o gynnwys sesiynau ar sail un i un gydag unigolion a effeithir yn uniongyrchol; byddai cysylltiad dechreuol yn cael ei wneud drwy'r newyddlen flynyddol ar gyfer deiliaid trwydded.

Cydnabu'r Pwyllgor Trwyddedu fanteision mabwysiadu'r Canllawiau er mwyn darparu dull cyson o benderfynu addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwydded a darparu graddfa o unffurffedd ar draws y rhanbarth o ran hynny. Nodwyd hefyd y

byddai mabwysiadu'r canllawiau yn darparu diogelwch ychwanegol ar gyfer awdurdodau lleol mewn digwyddiad o apêl. O ganlyniad -

**PENDERFYNWYD** y byddai aelodau'n -

- (a) *Mabwysiadu Canllawiau'r Sefydliad Trwyddedu wrth benderfynu addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwydded ym masnachau cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat;*
- (b) *Cyfarwyddo swyddogion i lunio polisi sy'n bodloni cynnwys dogfen ganllawiau Sefydliad Trwyddedu ac adrodd yn ôl yn y cyfarfod ym Mehefin 2019 gyda golwg o'i weithredu ar 1 Gorffennaf 2019, a*
- (c) *Bod swyddogion yn cysylltu, drwy ohebiaeth a sesiynau ar draws y sir, gyda holl ddeiliaid trwydded Cerbyd Hacni a Cherbydau Hurio Preifat ar ddogfen ganllawiau'r Sefydliad Trwyddedu.*

## **Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

**PENDERFYNWYD** o dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Bydd y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol ar sail y bydd yn cynnwys datgelu gwybodaeth wedi'i wahardd fel y diffinnir ym Mharagraffau 12 a 14 Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf.

## **6 CAIS AM DRWYDDED AR GYFER CERBYD HURIO PREIFAT**

Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (dosbarthwyd yn flaenorol) -

- (i) derbyniwyd cais am Drwydded Cerbyd Hurio Preifat;
- (ii) roedd y cerbyd wedi ei drwyddedu ar gyfer hurio preifat yn flaenorol ond ni adnewyddwyd y drwydded cyn i'r drwydded bresennol ddod i ben ym mis Ebrill 2018, ac felly roedd angen delio â'r cais fel cais trwydded cerbyd newydd.
- (iii) nid oedd y swyddogion mewn safle i gymeradwyo'r cais gan fod y cerbyd wedi'i gofrestru yn 2007 ac felly nid oedd yn cydymffurfio â pholisi presennol y Cyngor a oedd yn nodi na ddylai unrhyw gerbyd wedi ei drwyddedu o dan gais newydd fod yn hŷn na 5 oed o ddyddiad ei gofrestru cyntaf, a
- (iv) gwahoddwyd yr ymgeisydd i fynychu'r cyfarfod i gefnogi ei chais ac ateb cwestiynau'r aelodau.

Roedd yr ymgeisydd yn bresennol a chadarnhaodd ei bod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau'r pwyllgor.

Cyflwynodd y Swyddog Gorfodi (HB) yr adroddiad a gofynnwyd i'r Pwyllgor Trwyddedu ystyried os oedd yn briodol gwro oddi wrth bolisi'r Cyngor o ran y

gofyniad oedran ar gyfer cerbydau newydd er mwyn cymeradwyo'r cais fel yr ymgeisiwyd amdano.

Dywedodd yr ymgeisydd bod y cerbyd mewn cyflwr taclus, yn fecanyddol ddiogel, ac yn addas i'r diben fel y gwelwyd yn y lluniau a ddarparwyd. Ni chyflawnwyd unrhyw waith tacsï cyffredinol, dim ond gwaith contract ysgol ac roedd y cerbyd wedi ei addasu ar gyfer wyth person ac yn darparu gofod ychwanegol ar gyfer bagiau/offer y disgyblion. Roedd profiad blaenorol wedi dangos na fyddai cerbyd newydd mor gadarn ac ni fyddai'n gallu ymdopi â gofynion ffyrdd gwledig ac amodau mewn lleoliadau gwledig anghysbell - pe byddai rhaid prynu cerbyd newydd byddai goblygiadau cost a fyddai'n cael ei ysgwyddo gan y Cyngor wrth roi contractau ar gyfer darpariaeth cludiant i'r ysgol. Cyfeiriodd yr ymgeisydd hefyd at ei hamgylchiadau teuluol personol ac eglurodd yr amgylchiadau a oedd wedi arwain at fethu ag adnewyddu'r drwydded bresennol cyn iddo ddod i ben gan gofio bod plât trwyddedu'r cerbyd wedi ei drosglwyddo ar gam cynharach.

Mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau, cadarnhawyd bod seddi wedi cael eu tynnu o'r cerbyd yn flaenorol gan adael digon o seddi ar gyfer wyth person. Roedd y cerbyd wedi cael tystysgrif cymeradwyaeth ar gyfer addasu nifer y seddi yn flaenorol - fodd bynnag byddai angen tystysgrif cymeradwyaeth newydd gan fod y cais yn cael ei drin fel cais cerbyd newydd. Gan nad oedd unrhyw gwestiynau pellach, gwahoddwyd yr ymgeisydd i wneud datganiad terfynol a dywedodd nad oedd ganddi unrhyw beth i'w ychwanegu at ei chyflwyniad.

Oedwyd y cyfarfod er mwyn ystyried y cais a -

***PHENDERFYNWYD*** gwrthod y cais am *Drwydded Cerbyd Hurio Preifat*.

Dyma resymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu -

Ystyriodd yr aelodau'r cais a sylwadau'r ymgeisydd yn yr achos yn ofalus. Penderfynodd y Pwyllgor Trwyddedu wrthod y cais oherwydd bod y polisi'n nodi na ddylai cerbydau wedi'u trwyddedu o dan gais newydd fod yn hŷn na phump oed o ddyddiad ei gofrestru cyntaf. Gan fod y cerbyd mewn cyswllt â'r cais yn yr achos hwn yn un ar ddeg oed, nid oedd yn cydymffurfio â'r polisi. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi ystyried nad oedd yr ymgeisydd wedi cynnig rhesymau derbyniol a fyddai'n eu perswadio i wro oddi wrth eu polisi yn yr achos hwn. Roedd y polisi presennol wedi bod mewn grym am ddwy flynedd a byddai'r Ymgeisydd wedi bod yn ymwybodol ohono. Er bod y Pwyllgor Trwyddedu yn cydymdeimlo â phroblemau a brofodd yr ymgeisydd yn ddiweddar, roedd y Pwyllgor yn ystyried y polisi yn un llym ac felly'n bolisi oedd rhaid glynu ato. Roedd y Cyngor wedi mabwysiadu'r polisi i godi safonau ymysg y fflyd ac roedd cyfyngiadau oedran cerbydau newydd yn rhan o hwnnw.

Roedd penderfyniadau a rhesymau'r Pwyllgor felly wedi eu cyfleu i'r Ymgeisydd. Roedd hawl apelio yn erbyn y penderfyniad i'r Llys Ynadon o fewn un diwrnod ar hugain.

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (wedi'i ddsbarthu'n flaenorol) -

- (i) cais ar gyfer gollwng y gofyniad i arddangos platiau hurio preifat ar gerbyd hurio preifat;
- (ii) polisi drafft o ran ceisiadau ar gyfer derbyn eithriad o arddangos platiau hurio preifat a sticeri drysau (Atodiad A yr adroddiad);
- (iii) pwerau'r Cyngor i gymeradwyo eithrio perchennog rhag arddangos y plât trwydded gan ystyried natur y gwaith ynghyd â safon y cerbyd ynghlwm a lle fydd y cerbyd yn cael ei weithredu;
- (iv) darparodd yr ymgeisydd fanylion llawn y cerbyd o ran y cais a natur y busnes (Atodiad B yr adroddiad), a
- (v) ffactorau eraill sydd angen eu hystyried ac amodau a argymhellwyd (Atodiad C yr adroddiad) os byddai'r aelodau o blaid cymeradwyo'r cais i eithrio.

Hysbyswyd yr aelodau nad oedd yr ymgeisydd yn bresennol i gyflwyno ei achos ac ni ddynododd os byddai'n mynychu a'i beidio. Ystyriodd y Pwyllgor bod digon o wybodaeth wedi ei ddarparu er mwyn iddynt benderfynu ar y cais i eithrio a chytunwyd mynd ymlaen â'r achos yn absenoldeb yr Ymgeisydd.

Crynhodd y Swyddog Trwyddedu'r adroddiad i'r aelodau.

Ystyriodd yr aelodau'r meini prawf ar gyfer gollwng y gofyniad i arddangos platiau trwydded ynghyd â gweithrediad a natur busnes yr Ymgeisydd. Nodwyd bod yr Ymgeisydd wedi bod o flaen y Pwyllgor Trwyddedu yn flaenorol ac wedi derbyn eithriad ar gyfer cerbydau eraill y busnes - roedd y cais presennol wedi cael ei wneud ar gyfer cerbyd newydd i ddisodli un arall.

Oedwyd y cyfarfod er mwyn ystyried y cais a -

***PHENDERFYNWYD*** cymeradwyo'r cais i ollwng y gofyniad i arddangos platiau a sticeri drysau trwydded cerbyd hurio preifat ar gyfer y cerbyd a nodir yn yr adroddiad yn destun yr amodau a fanylir yn Atodiad C yr adroddiad.

Dyma resymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu -

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r cyflwyniad ysgrifenedig gan yr Ymgeisydd, roedd yr aelodau'n fodlon bod natur y gwaith a safon y cerbydau ynghlwm yn bodloni'r meini prawf ar gyfer eithriad yn yr achos hwn. Roedd yr amodau wedi eu gosod er mwyn cynorthwyo â rheoliadau a gorfodi.

## **SESIWN AGORED**

Ar ôl cwblhau'r busnes uchod agorwyd y cyfarfod unwaith eto.

## 8 DIWEDDARIAD AR BOLISI A GWEITHDREFN PWYNTIAU COSB

Cyflwynodd y Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd adroddiad (dosbarthwyd yn flaenorol) yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ar y Polisi a Gweithdrefn Pwyntiau Cosb a oedd yn nodi sut oedd y Cyngor yn delio â mân dor amodau o ran trwyddedu tacsî.

Cymeradwywyd y Polisi a Gweithdrefn Pwyntiau Cosb ym mis Medi 2014, a chafodd ei ddiwygio ymhellach ym mis Medi 2015 ac mae dosbarthu pwyntiau wedi bod yn gweithredu ers mis Ionawr 2015. Roedd y ddogfen i gael ei adolygu o leiaf bob tair blynedd gyda'r adolygiad diwethaf wedi'i gyflawni ym mis Medi 2015. Ar ôl adolygu'r ddogfen ystyriodd y swyddogion ei fod yn parhau i fod yn addas i'r diben ac felly ni chynigwyd unrhyw newidiadau i'r cynllun. Roedd y nifer o ddigwyddiadau a'r mathau o dor amod lle ddisbarthwyd pwyntiau yn ystod 2017 a 2018 wedi eu nodi o fewn yr adroddiad hefyd.

Trafododd yr aelodau fanteision y cynllun gyda'r Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd ac ystyriwyd bod y polisi yn ddefnyddiol a bod pwysoliad y pwyntiau cosb ar gyfer tor amodau penodol yn gymesur. Roedd peth disgresiwn wrth orfodi'r polisi mewn achosion penodol gyda chyfleoedd i dor amodau penodol gael eu cywiro os oedd yn briodol o fewn amserlenni penodol. Roedd y lleihad yn y nifer o ddigwyddiadau yn 2018 mae'n debyg oherwydd cyfuniad o effaith gadarnhaol y polisi wrth fynd i'r afael â mân dor amodau ac absenoldeb dros dro'r Swyddog Gorfodi llawn amser am ran o'r cyfnod hwnnw. Cadarnhawyd hefyd bod y drosedd yn ymwneud â 'pheidio â dilyn disgyblaeth safle tacsî' wedi ei gyflwyno'n gyson ar draws y sir, ond yn dibynnu'n bennaf ar adroddiadau/cwynion i ymchwilio.

**PENDERFYNWYD** cydnabod y wybodaeth a ddarparwyd ar ddadansoddiad dosbarthu pwyntiau fel y nodwyd o fewn yr adroddiad.

## 9 DIWEDDARIAD AR GYFLWYNO RHESTR O GERBYDAU DYNODEDIG SY'N HYGYRCH I GADEIRIAU OLWYN

Cyflwynodd y Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd adroddiad (dosbarthwyd yn flaenorol) yn hysbysu aelodau o gynnydd cyflwyno rhestr gyhoeddedig o gerbydau â mynediad anabl fel y cymeradwywyd gan y Pwyllgor Trwyddedu ym Mawrth 2018 yn dilyn newidiadau a gyflwynwyd gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Hysbyswyd yr aelodau bod -

- 24 o'r 352 o gerbydau trwyddedig wedi eu henwi fel rhai hygyrch i'r anabl
- cynigwyd 31 Ionawr 2019 fel dyddiad i gyhoeddi'r rhestr
- cyn gweithredu bydd holl berchnogion cerbydau hygyrch i'r anabl yn cael eu hysbysu o'r rhestr a'r broses o eithriad rhag darparu cymorth symudedd
- unwaith y bydd y rhestr yn weithredol bydd yn rhoi goblygiadau pellach ar yrwyr a/neu berchnogion y cerbydau hynny, gan greu troseddau o dor amodau a gwahaniaethu
- ni fydd unrhyw gerbyd sydd ar y rhestr yn gorfod cario holl gadeiriau olwyn ond rhaid gallu cario rhai, a

- bydd y rhestr o gerbydau hygyrch i'r anabl ar gael i'r cyhoedd drwy wefan y Cyngor.

Roedd yr aelodau'n awyddus i fanylion cyswllt y perchnogion sy'n gweithredu cerbydau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn fod ar gael i'r rhai sydd angen y gwasanaeth. Eglurodd y Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd nad oedd gofynion ar gyfer y rhestr yn cynnwys manylion cyswllt a byddai goblygiadau o dan Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol. Fodd bynnag, fel rhan o'r broses o gyflwyno rhestr, gofynnir am ganiatâd gan berchnogion i gynnwys eu manylion cyswllt a manylion y rhai sy'n darparu cerbydau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn i gael eu dosbarthu fel y bo'n briodol i ysbytai, meddygfeydd ac ati. Er bod 24 o gerbydau trwyddedig yn hygyrch i gadeiriau olwyn, mae'r mwyafrif o'r cerbydau hynny yn gyfyngedig i oddeutu pum cwmni sy'n gweithredu o fewn y sir. Trafododd yr aelodau'r goblygiadau a osodir ar yrwyr gyda cherbyd sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn i ddarparu cymorth ychwanegol i deithwyr. Nodwyd y byddai gyrwyr gyda chyflwr meddygol, anabledd neu gyflwr corfforol a oedd yn ei gwneud hi'n amhosib neu'n anodd iddynt gyflawni'r dyletswyddau hynny, yn gallu gwneud cais am eithriad ar y sail honno, i'w benderfynu gan yr awdurdod trwyddedu.

**PENDERFYNWYD** bod aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad a chytuno ar y dyddiad gweithredu o 31 Ionawr 2019 ar gyfer cyhoeddi'r rhestr o gerbydau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn.

## 10 DEDDF GAMBLO 2005 – ADOLYGU DATGANIAD O EGWYDDORION

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn cyflwyno Datganiad o Egwyddorion y Cyngor i'w ailfabwysiadu.

Cafodd Datganiad o Egwyddorion y Cyngor ei fabwysiadu a'i weithredu ar 1 Ebrill 2018 ac yn destun adolygiad bob tair blynedd. Cafodd ei ddatblygu gan chwe awdurdod trwyddedu yng Ngogledd Cymru er mwyn dod â chysondeb i faterion yn ymwneud â Gamblo ac roedd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn. Fodd bynnag roedd y Comisiwn Gamblo wedi cyfarwyddo holl awdurdodau trwyddedu i adolygu a mabwysiadu eu Datganiad o Egwyddorion i fod mewn grym o 31 Ionawr 2019. O ganlyniad, gofynnwyd i aelodau ail-fabwysiadu'r polisi presennol yn unol â'r cyfarwyddyd gan y Comisiwn Gamblo heb yr angen i ymgynghori ymhellach er mwyn cyd-daro â'u hamserlen ar gyfer adolygu.

**PENDERFYNWYD** bod Aelodau'n cytuno i fabwysiadu'r Datganiad o Egwyddorion, fel y'i cyflwynir, gyda dyddiad gweithredu o 31 Ionawr 2019.

## 11 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU 2019

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (dosbarthwyd yn flaenorol) ar Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer 2019.

Wrth ddrafftio'r rhaglen gwaith roedd y swyddogion wedi ystyried y polisiau oedd yn berthnasol i'r Pwyllgor Trwyddedu a dyddiadau adolygu'r polisiau hynny, ynghyd â newidiadau deddfwriaethol arfaethedig. Argymhelliad y swyddogion oedd cynnal

rhaglen gwaith i'r dyfodol ar dreigl deuddeg mis er mwyn ymateb i bwysau sy'n codi neu newidiadau wrth iddynt godi heb yr angen i wneud newidiadau arwyddocaol i'r rhaglen. Byddai'r rhaglen gwaith yn cael ei gyflwyno ymhob cyfarfod i'w gadarnhau a gallai aelodau gyflwyno eitemau ar gyfer eu hystyried i swyddogion drwy'r Pwyllgor Trwyddedu.

***PENDERFYNWYD*** y byddai aelodau'n -

- (a) cymeradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol fel y mae yn atodiad i'r adroddiad, a*
- (b) Awdurdodi swyddogion i gyflwyno rhaglen gwaith i'r dyfodol ar dreigl deuddeg mis i'w ddiwygio ymhob cyfarfod y pwyllgor.*

*Daeth y cyfarfod i ben am 10.55 a.m.*